# Maes llafur yr Ysgol Sul – diolch ac edrych ymlaen

A hithau'n ganol mis Mehefin erbyn hyn, mae blwyddyn arferol yr ysgol Sul yn prysur ddod i ben, a hynny ar ddiwedd cyfnod cwbl anghyffredin ac anarferol. Er bod yna lawer o adnoddau wedi eu creu, prin fu'r cyfle i'w defnyddio, ond mawr obeithiwn y daw cyfle eto yn y dyfodol wrth i grwpiau trafod ddechrau ailgyfarfod yn ein heglwysi.

Yn ystod tymor 2020/21 cafwyd maes llafur i oedolion wedi ei baratoi bob wythnos gan y Parchg Denzil John, Caerdydd. Cafwyd 54 gwers ganddo'n ein cyflwyno i rai o gymeriadau mwyaf cyfarwydd y Testament Newydd. Yn ogystal â darparu gwers wythnosol a ymddangosodd yn y papurau enwadol, fe aeth ati yn ogystal i gyflwyno ffilm o bob un wers, ac mae'r ffilmiau hynny i'w gweld ar wefan [www.ysgolsul.com](http://www.ysgolsul.com). Mawr yw ein diolch i Denzil am y ddarpariaeth gyfoethog hon. Er na fu grwpiau'n cyfarfod mewn sawl capel lle'r arferid cynnal dosbarth oedolion, gobeithiwn y bydd modd i eraill eto yn y dyfodol droi at y deunydd hwn. Mae'n ddelfrydol fel deunydd trafod mewn seiat neu astudiaeth Feiblaidd.


Denzil John

Yn yr un modd, bu nifer wrthi'n paratoi gwersi Ysgol Sul / Clwb Plant yn wythnosol drwy gydol y cyfnod clo. Cafwyd 62 pecyn wedi'u paratoi gan griw o bobl yn cael eu harwain gan Andy Hughes o Saint y Gymuned. Roedd y pecynnau hynny yn llawn straeon, syniadau crefft a gweddi, heriau wythnosol, posau a thaflenni, yn ogystal â dulliau creadigol o adrodd y stori. Yn cynorthwyo Andy gyda'r gwaith yr oedd Susan Williams o Gynllun EFE a Chapel Caersalem, Caernarfon; Nia Williams o Eglwys Bresbyteraidd Cymru; a Jennifer Roberts o Eglwys Bresbyteraidd Cymru gyda chymorth, syniadau ac adnoddau gan Mair Roberts, Rachel Hughes, Delyth Dempsey a Gwyn Rhydderch.


Andy Hughes

Mawr yw ein diolch i chi oll fel tîm gweithgar. I gyd-fynd â'r pecyn yma, roedd 'na ffilm Feiblaidd hefyd, yn cael ei chynhyrchu gan Gwyn Rhydderch, a chân Gristnogol wreiddiol newydd i blant yn rhannu neges y wers bob wythnos, wedi'i chyfansoddi a'i chanu gan Andy Hughes. Rydym yn gobeithio cynnwys yr holl adnoddau yma ar wefan [ysgolsul.com](http://ysgolsul.com) yn fuan, er mwyn i ysgolion Sul lleol fedru eu lawrlwytho a'u defnyddio wrth ailgydio yng ngwaith yr ysgol Sul yn ein heglwysi.


Bu Delyth Murphy a Helen Roberts hefyd yn brysur yn addasu gwersi ysgol Sul yn dilyn hanes bywyd Iesu, gan ddefnyddio adnoddau Max&, sy'n rhan o'r adnoddau a welir ar wefan [beibl.net](http://beibl.net). Criw arall a fu'n brysur yn paratoi pecynnau wythnosol yn Gymraeg a Saesneg oedd Tîm Plant Esgobaeth Aberhonddu ac Abertawe, o dan yr enw Cymuned Bach, ac mae'r pecynnau thematig hyn bellach i'w cael o wefan [ysgolsul.com](http://ysgolsul.com).

Diolch i bawb am eu llafur. Cofiwch fod yna gannoedd o wersi a syniadau ar gael erbyn hyn hefyd yn rhad ac am ddim o wefan [www.gair.cymru](http://www.gair.cymru), o dan nawdd Cyngor yr Ysgolion Sul.

Wrth edrych ymlaen felly at fis Medi 2021, dyma gyflwyno'r arlwy newydd ar ein cyfer:

### Maes llafur yr oedolion


O fis Medi 2021 ymlaen, bydd y maes yn seiliedig ar y gyfrol *Dehongli Bywyd a Gwaith Abraham*, gan ddilyn y llyfr cyntaf mewn cyfres newydd gan yr Athro Gareth Lloyd Jones, sy'n ddilyniant i gyfres boblogaidd Elfed ap Nefydd Roberts, 'Dehongli ...' ar y Testament Newydd. Byddwn yn troi i gyfeiriad Abraham yn gyntaf, ac yna, yn 2022, yn astudio'i ail gyfrol yn y gyfres, sef *Dehongli Bywyd a Gwaith Esther a Jona*, cyn gorffen gyda *Dehongli Bywyd a Gwaith Moses*. Yn ychwanegol at y cyfrolau hyn, fe fydd yna gyflwyniad byr i'r wers ac ambell sylw perthnasol a chyfoes yn cael eu cynnwys o fewn tudalennau'r papurau enwadol.




### Maes llafur i blant ac ieuenctid

Erbyn hyn, mae llu o adnoddau ar gael i gynnal ysgol Sul – cofiwch am yr amrywiol wefannau sy'n rhan o deulu Cyngor yr Ysgolion Sul.

O ran y prif werslyfr, byddwn yn troi at gyfrol sydd wedi'i pharatoi mewn partneriaeth â Chymorth Cristnogol, sef *Sesiynau Astudio Sach Stori Cyfiawnder Mawr*, wedi'i haddasu i'r Gymraeg gan Dyfed Wyn Roberts. Dyma werslyfr i blant 5–11 oed yn dilyn hanes a gwaith Cymorth Cristnogol, a'r un pryd yn dysgu am rai o straeon cyfarwydd y Beibl. Mae'r pecyn ar gael fel cyfrol brint am £7.99 neu mae modd archebu copi electronig ar y we am £5.99 o wefan [ysgolsul.com](http://ysgolsul.com).




Mae Cyngor yr Ysgolion Sul yn bwriadu trefnu taith adnoddau mewn canolfannau strategol ar draws Cymru. Dim ond pan fydd hi'n ddiogel ac yn gyfrifol i wneud hynny y byddwn yn trefnu'r daith, wrth gwrs, gan ddilyn y canllawiau diweddaraf o ran yr hyn y caniateir i ni ei wneud. Daw mwy o wybodaeth am hyn maes o law.




Cofiwch gysylltu os gallwn fod o gymorth i chi yn lleol wrth ichi ailgychwyn ar y gwaith ddechrau Medi.

*Aled Davies*
*Cyfarwyddwr Cyngor Ysgolion Sul Cymru*